

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF**

**GWŶS I GYFARFOD**

**P J Lucas**

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms.Karyl May - Ffôn. (01443) 424045

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, **Parc Hen Lofa'r Cambrian**, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 30 Medi 2015 am 5.00 p.m.**

**AGENDA**

**Tudalennau**

**DATGAN BUDDIANT**

- 1 Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

- 2 **CYHOEDDIADAU**

- 3 **COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2015 yn rhai cywir.

**1- 6**

- 4 **LLYWODRAETHU AGORED:**

- 5 **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

**6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR**

- (a) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.Powderhill i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"Yn dilyn agoriad y Lido, Pontypridd, yn ddiweddar, mae'r adborth rwy wedi'i gael wedi bod yn gadarnhaol dros ben. A wnaiff yr Arweinydd wneud sylw ar y Lido yn y mis cyntaf o weithredu?"

- (b) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Norris i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"Rydyn ni i gyd yn gwybod am y dirwyon sylweddol sy'n wynebu Cyngorau sydd heb fwrw targedau ailgylchu Llywodraethu Cymru. O ystyried y sefyllfa ariannol sydd ohoni o ganlyniad i doriadau i gyllidebau'r sector cyhoeddus, mae'n amlwg mai prin y gall y Cyngor dalu dirwyon o'r fath. Felly, a wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar gyflawniad presennol y Cyngor ynghylch ailgylchu?"

- (c) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R.Lewis i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Diwylliant (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Crimmings)**

"Rwy'n croesawu'r cyhoeddiad diweddar mewn perthynas â'r buddsoddiad arfaethedig mewn canolfannau hamdden, yn enwedig yn fy ward innau, Abercynon. A fydd yr Aelod o'r Cabinet gystal â rhoi gwybod am yr hyn y bydd y buddsoddiad sylweddol yn ei olygu i drigolion ac ymwelwyr i Ganolfannau Chwaraeon Abercynon, Bronwydd, a Chwm Rhondda?"

- (ch) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S.Carter i'r Aelod o'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu'r Economi a Chynllunio (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan)**

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb roi'r diweddaraf ynglŷn â hynt Canolfan Siopa Cwm Taf ar ôl i'r Cyngor brynu'r brydles yn ddiweddar?"

- (d) **Gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P.Jarman i Arweinydd y Cyngor (Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**


"Mae hyn yn gais gan f'etholwraig, Ann, i ofyn i chi a fydd

eich Cabinet yn mabwysiadu'r agenda 'gwrth-gyni' wrth i'r cylch nesaf o bennu'r gyllideb nesáu?"

## **ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

- |           |  |                 |
|-----------|--|-----------------|
| <b>7</b>  | <b>Newid i Aelodaeth y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a'r Pwyllgor Archwilio</b>                           |                 |
|           | Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  | <b>7 – 8</b>    |
| <b>8</b>  | <b>Llywodraeth Cymru – Dogfen Ymgynghori – Cyfarwyddiadau Drafft i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru</b> |                 |
|           | Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  | <b>9 – 22</b>   |
| <b>9</b>  | <b>Adolygiad o Wasanaeth y Crwner</b>  |                 |
|           | Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  | <b>23 – 60</b>  |
| <b>10</b> | <b>Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf</b>                   |                 |
|           | Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru)   | <b>61 – 76</b>  |
| <b>11</b> | <b>Adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf</b>                             |                 |
|           | Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru)   | <b>77 – 88</b>  |
| <b>12</b> | <b>Datganiad Cyfrifon 2014/15</b>  |                 |
|           | Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen                                   | <b>89 – 286</b> |
| <b>13</b> | <b>Mater brys – Penderfyniad y Cabinet</b>   |                 |
|           | Nodi penderfyniad brys y Cabinet yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Gorffennaf, 2015.                               | <b>287 –290</b> |

- 14 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'P. J. Lucas', with a horizontal line underneath.

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a  
Llywodraethol**

**At sylw: Pob aelod o'r Cyngor**

**23 Medi 2015**